# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

Dyddiad: Dydd Llun, 23 Hydref 2023

Amser: 14.00 - 15.19

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13517

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jack Sargeant AS (Cadeirydd)<br>Joel James AS<br>Peredur Owen Griffiths AS |
| Tystion: | Simon Gilbert, Pennaeth Cynllunio, Cyngor Caerdydd<br>Darren Joyce, Cyfarwyddwr, The Friendly Trust |
| Staff y Pwyllgor: | Gareth Price (Clerc)<br>Kayleigh Imperato (Dirprwy Glerc)<br>Aled Evans (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Sesiwn dystiolaeth - P-06-1307 Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i fabwysiadu gwaith cynnal a chadw ystadau tai newydd gan awdurdodau lleol.

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Simon Gilbert, Pennaeth Cynllunio, Cyngor Caerdydd.

## 3 Deisebau newydd

### 3.1 P-06-1362 Dylid darparu cynnig cyfatebol yng Nghymru i'r cynnig gofal plant newydd yn Lloegr, sef 15 awr, ar gyfer plant 2 flwydd oed o fis Ebrill 2024

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd ddeiseb P-06-1359 Dylid cynnig yr un cymorth ariannol ar gyfer gofal plant i rieni sy'n gweithio yng Nghymru â’r hyn sydd ar gael yn Lloegr, a ystyriwyd yn y cyfarfod diwethaf.

Cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ynghylch y ddwy ddeiseb i dynnu sylw at y materion a godwyd gan Oxfam Cymru a gofyn am eglurder pellach cyn penderfynu ar y camau nesaf i'w cymryd.

## 4 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 4.1 P-06-1334 Gwneud y Senedd yn Fwy Cynrychiadol o Boblogaeth Cymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i dynnu sylw’r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ati, a dychwelyd ati pan fydd trafodion Cyfnod 1 y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) wedi dod i ben.

### 4.2 P-06-1332 Ariannu ymchwil brechlyn i amddiffyn gwiwerod coch rhag feirws marwol brech y gwiwerod

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn - a oedd yn cynnwys apêl gan Aelod i'w hysbysu am gynnydd. Cytunodd yr Aelodau i gadw'r ddeiseb ar agor a gofyn am ddiweddariad ar y sefyllfa ymhen 12 mis.

### 4.3 P-06-1299 Dylai "Rhewi ar adeiladu ffyrdd" Llywodraeth Cymru gynnwys cymal ar gyfer achosion sy'n peri perygl i fywyd

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu yn ôl at gyngor Rhondda Cynon Taf i ofyn am atebion i nifer o gwestiynau gan gynnwys:

- A oes llwybr wedi'i nodi ar gyfer ffordd liniaru; ac
- A ydynt yn lobïo Llywodraeth Cymru i edrych eto ar y cynllun penodol hwn.

## 5 Sesiwn dystiolaeth - P-06-1335 Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau y gall oedolion agored i niwed heb gerdyn banc dalu ag arian parod

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Darren Joyce, Cyfarwyddwr yr Ymddiriedolaeth Gyfeillgar.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Trafod y dystiolaeth - P-06-1307 Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i fabwysiadu gwaith cynnal a chadw ystadau tai newydd gan awdurdodau lleol

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywodd.

## 8 Trafod y dystiolaeth - P-06-1335 Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau y gall oedolion agored i niwed heb gerdyn banc dalu ag arian parod

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywodd.